



**Cynllun Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru**

**Wales Infected Blood
Support Scheme**

**CANLYNIADAU AROLWG BODDHAD CWSMERIAID
CYNLLUN CYNORTHWYO GWAED HEINTIEDIG CYMRU**

Diben yr adroddiad hwn yw adrodd ar ganlyniadau Arolwg Boddhad Cwsmeriaid Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS).

CYFLWYNIAD

Yn dilyn trafodaeth yng Ngrŵp Llywodraethu WIBSS yn 2020, datblygwyd "Arolwg Boddhad WIBSS" a'i anfon at ein holl fuddiolwyr ym mis Mai 2021. Y diben oedd cael mewnwelediad ac adborth ar y gwasanaethau y mae WIBSS yn eu darparu.


Mae'r gwasanaeth WIBSS mewn sefyllfa unigryw ar hyn o bryd. Dyma'r unig gynllun datganoledig yn y DU sy'n darparu gwasanaeth hawliau lles cyfannol yn uniongyrchol a gwasanaeth lles emosiynol i ddefnyddwyr y gwasanaeth, yn ogystal â'r swyddogaeth dalu.

Roedd yn bwysig ceisio barn ar gyfer pob maes penodol ac ar y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Cyhoeddwyd yr arolwg ym mis Mai 2021. Roedd yr holl atebion yn ddiennw. Cyhoeddwyd 200 o arolygon boddhad a dychwelwyd 84, sef cyfradd ymateb o 42%. Fe'n cynghorwyd bod hon yn gyfradd ymateb dda.

Mae canfyddiadau'r arolwg i'w gweld isod. Mae rhai syniadau cychwynol i'w hystyried hefyd wedi'u nodi o dan ddadansoddiad/sylwebaeth.

CANFYDDIADAU

Mae tystiolaeth glir bod gwasanaeth WIBSS yn uchel ei barch gan y rhai sy'n ei ddefnyddio, gyda 75% o ymatebwyr yn dweud bod y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gan WIBSS yn 'Dda iawn' neu'n 'Dda', gyda staff 'bob amser yn barod iawn i helpu'; 'cwrtais', a'r gwasanaeth yn cael ei ddisgrifio fel un rhagorol ('Gwasanaeth rhagorol, di-fai').



Fodd bynnag, roedd meysydd i'w gwella hefyd yn amlwg, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau y mae WIBSS yn eu darparu a chyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth.

Bydd y sylwadau a'r ddealltwriaeth a ddarparwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn sicrhau bod WIBSS yn parhau i gynnig a darparu'r gwasanaeth gorau posibl wrth symud ymlaen.

DADANSODDI DATA


Rhannwyd yr arolwg yn bum maes:

- ▶ Gwasanaeth cyffredinol
- ▶ Taliadau a wneir i chi
- ▶ Gwerthusiad Hawliau Lles ac Eiriolaeth
- ▶ Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Emosiynol a Lles; a
- ▶ Chwestiynau Cryno.


1. GWASANAETH CYFFREDINOL

O'r 84 o ymatebwyr yr arolwg, nododd 66% eu bod wedi cysylltu â'r gwasanaeth WIBSS, gydag **amlder cyswilt** mwyaf yr ymatebwyr hyn yn 1-3 gwaith (10 ymatebydd).

A ydych chi wedi cysylltu â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS)?




Sawl gwaith rydych chi wedi cysylltu â WIBSS yn ystod y 12 mis diwethaf?




O ran **rhwyddineb cysylltu**, roedd 85.4% o'r rhai a oedd wedi cysylltu â'r gwasanaeth o'r farn bod hyn yn 'Hawdd iawn' neu'n 'Hawdd'. Mae'r cwmwl geiriau isod yn dangos sylwadau a roddwyd mewn perthynas â rhwyddineb cysylltu:

A YDYCH CHI'N EI CHAEL HI'N HAWDD NEU'N ANODD CYSYLLTU AG WIBSS?



Unwaith eto, mae sylwadau'r defnyddwyr gwasanaeth yn gadarnhaol ar y cyfan. Soniodd sawl ymatebydd am orfod gadael negeseuon ar Beiriant Ateb. Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod y pandemig byd-eang pan oedd staff yn gweithio gartref. Er mwyn sicrhau na chollwyd galwadau, gosodwyd neges peiriant ateb, a fyddai'n e-bostio Mewnflwch WIBSS i roi gwybod i ni fod neges wedi'i derbyn. Ein nod oedd ymateb i'r alwad o fewn awr, os y cai ei derbyn yn ystod oriau busnes, a chyflawnwyd hyn gennym yn y rhan fwyaf o achosion.

SUT YR YMDRINIWYD Â'CH YMHOLIADAU??



Wrth ystyried **ansawdd y gwasanaeth** a pha mor effeithiol yr ymdriniwyd ag ymholiadau, roedd boddhad aruthrol unwaith eto â hyn (ymatebodd 90.9% gydag 'Effeithiol iawn' neu 'Effeithiol').

Yn yr un modd, roedd 86% o'r rhai a oedd wedi cysylltu â'r gwasanaeth naill ai'n 'Fodlon' neu'n 'Fodlon iawn' ar **ba mor gyflym yr ymdriniwyd â'r ymholiad**, gyda 5% yn dweud eu bod naill ai'n 'Anfodlon' neu'n 'Anfodlon iawn'.


Roedd llawer o'r sylwadau'n adlewyrchu natur gadarnhaol rheoli ymholiadau, *'Staff cyfeillgar a chymwynasgar iawn'*, *'Bu'r tri o bobl y siaradais i â nhw yn hynod o gymwynasgar'*, a'r gwasanaeth personol a ddarperir, e.e., *'Sarah a Ryan yw'r unig rai y mae gen i unrhyw beth i'w wneud â hwy ac maen nhw'n 100%'*.

Cydnabuwyd, fodd bynnag, lle digwyddodd oedi, y gallai'r rhain fod wedi bod o ganlyniad i COVID-19 ac felly fe'u deallwyd, *'Cymerodd nifer o ddyddiau, ond gyda Covid roedd yn ddealladwy'*.


Dywedodd un ymatebydd, *'Dim ond gan ffrind y ces i wybod bod gen i hawl posibl'*. Mae'r sylw hwn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau diweddarach mewn perthynas â'r angen i godi ymwybyddiaeth o WIBSS a'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig.

Nododd dwy ran o dair o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi **ymweld â gwefan y Gwasanaeth**. O'r 55 a oedd wedi gwneud hyn, canfu 22 (47%) fod y wefan yn 'Ddefnyddiol iawn' neu'n 'Ddefnyddiol'; roedd 4 (9%) yn niwtral yn eu hymateb; gyda 2 (4%) yn dweud nad oedd yn ddefnyddiol o gwbl. Ni roddodd 40% o'r ymatebwyr unrhyw ymateb i'r cwestiwn hwn ynghylch **defnyddioldeb y wefan**.

A ydych chi wedi ymweld â gwefan WIBSS?



Os ydych chi wedi ymweld â gwefan WIBSS, pa mor ddefnyddiol neu beidio yw hi i ddod o hyd i wybodaeth?



Mae adolygiad o'r sylwadau'n awgrymu y gallai fod angen gwneud mwy er mwyn i wybodaeth fod ar gael oddi ar-lein yn ogystal ag ar-lein, gan nad yw'n ymddangos bod llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael

gafael ar y wybodaeth o'r wefan. Mae sylwadau fel *'Does gen i ddim cyfrifiadur, dim diddordeb mewn cael un'; 'Dydw i ddim ar-lein'; 'Dydw i ddim yn berson cyfrifiadurol'; a 'Dydw i ddim yn berchen ar gyfrifiadur', yn tynnu sylw at hyn. Awgrymodd un arall y 'byddai'n well pe gallen ni argraffu'r ffurflenni ar gyfer grantiau.'*

Cafwyd dau sylw sy'n awgrymu y gellid darparu mwy o wybodaeth ar y wefan: *'Dim digon o wybodaeth am Iechyd a Lles', ac 'Mae llawer mwy o wybodaeth ar wefannau cenhedloedd eraill a'r cyfan sydd gennych yw'r un wybodaeth. Siomedig ac anfodlon iawn'.*

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr am **gylchlythyr WIBSS**. Nodwyd dibyniaeth ar hyn, gydag un ymatebydd yn dweud: *'Gan nad ydw i ar-lein, rwy'n dibynnu ar gyfathrebu papur i gael newyddion ac ati'*. Fodd bynnag, nid oedd 30% o'r rhai a ymatebodd yn ymwybodol o'r Cylchlythyr o gwbl: *'Sut mae cael gafael ar hwn?'; 'Mae angen i mi gael gwybod am y cylchlythyr'; 'Dydw i ddim yn cofio cael un'.*

O'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r Cylchlythyr (51, 61%), cafwyd adolygiadau cymysg. Er y teimlwyd bod y Cylchlythyr *'Yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am sefyllfa bresennol yr achos cyfan a'r gwasanaethau a ddarperir'; '... mae'n fy ngwneud i'n ymwybodol o'r newidiadau sy'n digwydd'; ei fod yn 'Hawdd ei deall', a bod ganddo 'Wybodaeth glir iawn', canfuwyd ei fod yn gallu bod yn 'eithaf anodd ei ddarllen gan y gall fod yn ddryslyd', gydag ymatebwyr yn dweud yr hoffent i bethau gael eu hesbonio *'mewn ffordd lawer mwy syml'.**



2. TALIADAU A WNEIR I CHI

Mae'r cynllun yn cydnabod bod unigolion sy'n byw gyda hepatitis C a/neu HIV yn wynebu costau ychwanegol am bethau fel yswiriant, yswiriant teithio, costau gofal a chostau teithio i fynychu apwyntiadau ysbyty ac ati ac yn cynnig cymorth ariannol i gynorthwyo gyda hyn. Mae lefel y cymorth yn amrywio yn dibynnu ar ba gam sydd gan berson. Mae WIBSS hefyd yn cynnig taliadau profedigaeth, taliadau priod/partner mewn profedigaeth a thaliadau grant bach yn ôl disgrisiwn.

O ran y **ddarpariaeth gwasanaeth gyffredinol ar gyfer y taliadau**, teimlai 92% (77) fod y gwasanaeth sy'n ymwneud â thaliadau wedi bod yn 'Effeithiol iawn' neu'n 'Effeithiol'. O'r taliadau a dderbyniwyd, roedd 87% yn 'Gywir bob amser', gydag 8% yn 'Gywir ar y cyfan' neu 'Weithiau'n gywir'.

Mae rhywfaint o sylwadau a wnaed ynghylch cywirdeb y **taliadau** yn rhoi gwybodaeth ar gyfer ystyriaeth ddefnyddiol o welliannau y gellid eu gwneud:

- ▶ *'Maen nhw'n gywir ond rwy'n teimlo y dylid gwneud y cyfrifiadau cydraddoldeb yn gyflymach o ystyried bod Cymru wedi bod y tu ôl i weddill y wlad ers peth amser ac mae'r bobl newydd angen y taliadau hyn er mwyn iddyn nhw ddal eu pen uwchben y lan.'*, ac
- ▶ *'Er eu bod yn cydnabod y taliadau'n gywir i ddechrau pan ddaeth WIBSS yn gyfrifol am daliadau, roedd y ffurflen yn eithaf brawychus i mi, yn enwedig y pwyslais ar dderbyn taliadau pan nad oedd hawl gwneud hynny. Roeddwn i'n teimlo bron yn euog wrth lenwi'r ffurflen.'*




O ran **prydlondeb**, nodwyd bod tri chwarter (62) o daliadau yn cael eu derbyn 'Ar amser bob amser'; gyda 19% naill ai'n cael eu derbyn 'Ar amser gan amlaf' neu 'Ar amser weithiau'.

Mae rhai sylwadau a ddarparwyd yn galluogi rhai gwelliannau cyflym os gellir eu rheoli e.e., un sylw oedd 'Gall dyddiadau amrywio' a bod 'Dyddiadau dros bob man'. Un awgrym a ddaeth oedd: 'Byddai'n braf petai'r arian yn cael ei dalu ar yr un dyddiad bob mis'.

3. GWERTHUSIAD O'R GWASANAETH HAWLIAU LLES AC EIRIOLAETH

Rydym yn cydnabod y gall anghenion defnyddwyr y gwasanaeth ymestyn ymhellach na chymorth ariannol yn unig ac felly rydym yn cynnig gwasanaeth hawliau lles arbenigol. Mae hyn wedi esblygu'n ddau faes gwahanol, cymorth i weithwyr allweddol a'r rôl hawliau lles.



Nododd 58% o'r 84 o ymatebwyr eu bod yn **ymwybodol o'r gwasanaethau** y gall Cynghorwyr Hawliau Lles WIBSS eu cynnig.

Fodd bynnag, dywedodd 42% (35) nad oeddent yn ymwybodol o'r gwasanaeth: 'Doeddwn i ddim yn gwybod am y gwasanaeth yma'; 'Ddim yn gwybod ond fe wna'

O'r 8% (7) a oedd wedi defnyddio Gwasanaeth Hawliau Lles WIBSS, roedd dau wedi cysylltu i wirio eu hawl; roedd un yn cael cwnsela; a phedwar i helpu i gwblhau'r ffurflen fudd-daliadau. Dywedodd traean o'r rhai a dderbyniodd gymorth eu bod yn gweld newidiadau/gwelliannau i'w hamgylchiadau oherwydd y cymorth a'r cyngor a gawsant gan y tîm hawliau lles:

'Mae WIBSS wedi bod yn gymorth gwych yn cefnogi ac yn deall y pryder a gaf i wrth lenwi ffurflenni nad ydw i'n eu deall a heb unrhyw gymorth arall'

'Helpodd y cymorth a gefais gan WIBSS fy lefelau straen ac mae wedi fy helpu i wneud fy asesiad PIP'

'Ges i fy mathodyn glas'

'Sicrwydd ynghylch rhan-daliadau gyda Lloegr'

4. GWASANAETH LLES EMOSIYNOL

O fis Ionawr 2020, mae unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda WIBSS, aelodau o'u teuluoedd ac aelodau o'u teuluoedd sydd mewn profedigaeth wedi gallu cael asesiad a thriniaeth seicolegol yn ymwneud â'r anawsterau emosiynol o gael a byw gyda diagnosis o hepatitis C a/neu HIV.

Mae'r tîm yn ymwybodol o'r cyd-destun hanesyddol ac mae ganddynt brofiad o weithio gyda'r anawsterau emosiynol sydd wedi digwydd o ganlyniad. Mae'r gwasanaeth seicoleg arbenigol hwn, yn cydnabod y cymhlethdod corfforol a seicolegol a'r effaith ar ansawdd bywyd a pherthnasoedd.

O'r 84 o ymatebwyr i'r arolwg, roedd 48 (57%) **yn ymwybodol** o'r cymorth lles emosiynol arbenigol a oedd ar gael iddynt hwy a'u teuluoedd gan WIBSS.

I'r rhai a oedd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i asesu a oedd y cymorth wedi bod **o help**:

	le	Na
Mae'r sesiynau cwnsela wedi fy helpu i ddeall yn well yr anawsterau rwyf wedi'u profi.	12	6
Mae'r sesiynau cwnsela wedi fy helpu i siarad am y profiadau penodol sy'n gysylltiedig â chael cynhyrchion gwaed heintiedig.	15	3
Mae'r sesiynau cwnsela wedi fy helpu i leisio teimladau cymhleth.	15	3
Mae wedi bod yn bwysig siarad â rhywun sy'n ymwybodol o'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion gwaed heintiedig a'r ymchwiliad.	15	3
Teimlaf fod rhywun wedi gwrandao arnaf yn y sesiynau.	14	3
Mae fy nheimladau a'm hanawsterau'n teimlo'n llai o faich arnaf o allu siarad â pherson arbenigol.	14	2

Pan ofynnwyd am **newidiadau posibl** y gellid eu gwneud i'r sesiynau, neu **ffyrdd eraill** y gallai buddiolwyr y gwasanaeth **gael cymorth** gan y gwasanaeth cwnsela a seicoleg, ystyriodd yr ymatebwyr:

- ▶ Sesiynau cwnsela dros y ffôn
- ▶ Sesiynau grŵp
- ▶ Mynediad i'r gwasanaeth yn lleol
- ▶ Mae gwybod bod rhywun yno i helpu neu siarad â hwy yn rhwyd ddiogelwch pan fyddwch yn teimlo'n isel

Mae'n werth nodi bod un ymatebydd wedi dweud nad oeddent erioed wedi cael cynnig cwnsela.

Ymatebodd 14 o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg i'r cwestiynau ynghylch sefydlu rhwydwaith neu grŵp gyda buddiolwyr WIBSS i roi cymorth i'w gilydd. Roedd 50% (7) yn teimlo y byddai hyn yn dda, roedd 2 yn ansicr a phump yn fwy cyfforddus gyda dull mwy personol, un i un. Zoom a llwyfannau gwe oedd yr offer a awgrymwyd amlaf, gyda'r syniad o weithdy hefyd yn cael ei gyflwyno.

Yn gyffredinol, roedd yr adborth ar y gefnogaeth emosiynol a gafwyd yn gadarnhaol:

'Hoffwn ddweud pa mor gyfforddus ac anffurfiol oedd y sesiynau'

'Bu'r sesiynau hyn yn hynod werthfawr. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y gwasanaeth hwn yn parhau.'

5. CWESTIYNAU I GRYNHOI

Pan ofynnwyd a oedd unrhyw beth y gallai WIBSS ei wneud i **wella profiad** yr ymatebydd, dywedodd 18 (51%) o'r 35 o sylwadau eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth, ar ôl cael profiad cadarnhaol:

'Rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth ac alla i ddim meddwl am unrhyw ffordd o'i wella.'

'Rwy'n credu bod WIBSS yn gwneud gwaith gwych yn gofalu am y rhai yr effeithiwyd arnyn nhw.'

'Na, rwy'n credu bod WIBSS yn darparu gwasanaeth da'

'Dim ar hyn o bryd. Mae mynychu cyfarfodydd wedi bod yn brofiad cadarnhaol.'

'Dim byd, gan fy mod wedi bod yn hynod fodlon ar 'WIBSS' yn gyffredinol.'

'Mae WIBSS wedi bod yn broffesiynol iawn ac yn ddefnyddiol iawn.'

'Mae WIBSS yn darparu gwasanaeth da iawn.'

Wrth feddwl am welliannau, soniwyd am **gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth** – cyfathrebu mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer yr arian sy'n ddyledus, gan dderbyn diweddariadau (drwy e-bost): *'Gweddwon i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Dod â'ch gwefan i fyny i'r un safonau ag EIBSS'*, diweddariadau o ran yr hyn sy'n digwydd gyda'r Llywodraeth a sut mae'r Ymchwiliad yn mynd rhagddo; Fel y nodwyd yn gynharach, nid oedd rhai ymatebwyr yn ymwybodol o'r cymorth a oedd ar gael gan WIBSS na chyfleoedd cwnsela.

Ar gyfer **taliadau**, cafodd Taliadau Cyngor Talu drwy e-bost eu nodi'n gyffredin, yn ogystal â thalu'r taliad misol ar yr un dyddiad bob mis h.y. 10fed neu 15fed.

O gymorth hefyd **fyddai gwybodaeth morgais** am gwmnïau sy'n barod i dderbyn y taliadau.

Roedd rhywfaint o'r adborth yn ymwneud â'r rheswm bod WIBSS wedi'i sefydlu yn y lle cyntaf. Mae un ymatebydd wedi gofyn: *'A allaf gael ymddiheuriad gan y rhai sy'n gyfrifol am fy mhrofiad i?'*, gydag eraill yn ceisio ôl-dâl hyd at y dyddiad yr effeithiwyd arnynt hwy neu aelodau o'u teulu, enghraifft a ddarparwyd oedd 1983.

Roedd y cwestiwn olaf yn yr arolwg, **'A oes unrhyw beth arall y gallai WIBSS ei gynnig i chi fel rhan o'r gwasanaeth?'** yn rhoi ymdeimlad o'r gwerth a'r pwysigrwydd a roddir ar y gwasanaeth gan ei fuddiolwyr:

'Peidiwch â gadel iddo stopio Mae'r bobl iawn yn amlwg yn gwneud y gwaith iawn'
'Gwnewch yn siŵr nad oes dim byd fel hyn yn digwydd byth eto. Ar wahân i hynny, rydych chi'n gwneud gwaith gwych.

'Yn gyffredinol, nid oes gen i unrhyw gwynion am WIBSS, ond mae'r amser y mae wedi'i gymryd i ddigolledu'r dioddefwyr yn warthus. Dylai'r bobl sydd wedi sefyll yn ffordd digolledu'r dioddefwyr gael eu henwi a'u cywilyddio'n gyhoeddus a dylid eu gorfodi i ymddiheuro'n gyhoeddus.

Y meddyliau eraill a nodwyd oedd:

- ▶ Peth o'r ffordd tuag at gofio'r rhai nad ydynt gyda ni mwyach.
- ▶ Arian ychwanegol gan y Llywodraeth i'r rhai sy'n agosáu at oedran pensiwn
- ▶ Galwad ffôn ar ôl i lythyrau gael eu hanfon allan sy'n hirwyntog, i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu deall.
- ▶ Budd-daliadau Marwolaeth - pwy all gael buddion ein taliadau?
- ▶ Strwythur cyfathrebu neu gydnabyddiaeth o gefnogaeth gan feddygon teulu
- ▶ Mwy o Arian.

'Diolch i'r gefnogaeth rydych chi wedi'i rhoi i mi ac eraill yn fy sefyllfa i, daliwch ati â'r gwaith da.'
'Mae WIBSS a'r staff yn gwneud gwaith gwych ac rwy'n ddiolchgar am yr help y maen nhw'n ei roi i mi.'

DYWEDSOCH CHI, GWNAETHOM NI (NEU BYDDWN YN GWNEUD)

CYMYNRODDION AC YMWYBYDDIAETH

DYWEDSOCH CHI	GWNAETHOM NI (NEU BYDDWN YN GWNEUD)
<p>Mae gan wefannau cenhedloedd eraill fwy o wybodaeth. Pam nad ydych chi'n ei godi i safon EIBSS?</p>	<p>Roeddem yn cydnabod bod ein gwefan weithiau'n anodd ei defnyddio, felly rydym wedi treulio amser yn adolygu'r holl wybodaeth sydd arni, gan ei diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau diweddaraf i'r cynlluniau ac ail-lunio'r penawdau i'w gwneud yn haws dod o hyd i bethau ac yn haws i'w defnyddio.</p> <p>Rydym hefyd yn edrych ar gynnwys ychwanegol ac fel rhan o hynny, byddwn yn adolygu gwefannau ar gyfer cynlluniau eraill.</p> <p>Os oes gwybodaeth benodol y byddai pobl am ei chynnwys, gallant gysylltu â ni ar VCC.WIBSS@wales.nhs.uk neu dros y ffôn ar 029 2090 2280 a byddwn yn ystyried ychwanegu'r cynnwys.</p>
<p>Byddai'n ddefnyddiol pe gallem argraffu ffurflenni o'r rhyngrwyd.</p>	<p>Mae'n bosibl lawrlwytho ac argraffu'r ffurflenni o'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, os yw'n well gan bobl, gallant gysylltu â ni ar VCC.WIBSS@wales.nhs.uk neu dros y ffôn ar 029 2090 2280 a byddwn yn postio copi caled o'r ffurflenni atynt.</p>
<p>Nid oeddwn yn ymwybodol o'r Cylchlythyr.</p> <p>Mae'r Cylchlythyr yn rhy gymhleth.</p>	<p>Bydd y Cylchlythyr yn cael ei gyhoeddi bob chwarter. Byddwn yn ei anfon at bob buddiolwr ac yn gofyn i'r rhai nad ydynt am ei dderbyn i "optio allan".</p> <p>Byddwn hefyd yn sicrhau bod y Cylchlythyr yn cael ei ysgrifennu mewn termau syml a byddwn yn gofyn i Swyddog Cyswllt Cleifion ei brawfddarllen, cyn ei gyhoeddi.</p>
<p>Dylid dilyn llythyrau cymhleth gyda galwad ffôn, er mwyn sicrhau bod y derbynwyr yn deall y llythyr.</p>	<p>Mae WIBSS yn cydnabod bod rhai llythyrau y mae'n rhaid i ni eu cyhoeddi yn cynnwys llawer o wybodaeth i'w hystyried. Yn benodol, rydym yn cydnabod bod y llythyr sy'n manylu ar daliadau cydradd yn eithaf cymhleth, er inni geisio ei gadw mor syml â phosibl.</p> <p>Byddem yn annog unrhyw un nad yw'n deall unrhyw ohebiaeth a roddir gennym i gysylltu â ni, a byddwn yn cymryd yr amser i esbonio pethau iddynt.</p>
<p>Dylid diweddarau priod/partneriaid mewn profedigaeth.</p>	<p>Mae unrhyw ohebiaeth/taflenni/cylchlythyrau a gyhoeddir gan WIBSS i fuddiolwyr, yn cael eu rhoi i bob buddiolwr. Mae hyn yn cynnwys priod/partneriaid mewn profedigaeth.</p>

<p>Y wybodaeth ddiweddaraf am y llywodraeth a'r Ymchwiliad Cyhoeddus.</p>	<p>Mae WIBSS yn gwbl annibynnol ar yr ymchwiliad cyhoeddus ac felly nid yw'n ymwybodol o'r cynnydd y mae'n ei wneud yn rheolaidd. Pan fydd diweddariadau'n cael eu rhyddhau gan yr Ymchwiliad Cyhoeddus, rydym yn gwneud ein buddiolwyr yn ymwybodol ohonynt, drwy rannu dolen ar ein gwefan a thrwy eu hysbysu yn y Cylchlythyr nesaf, neu lle bo angen drwy ysgrifennu atynt e.e., os cynhelir ymgynghoriad.</p> <p>Pan fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau, neu ddiweddariadau i'r cynllun WIBSS, rydym yn rhoi'r wybodaeth hon ar y wefan ac yn ysgrifennu'n uniongyrchol at fuddiolwyr yn brydlon.</p>
---	---

TALIADAU	
DYWEDSOCH CHI	GWNAETHOM NI (NEU BYDDWN YN GWNEUD)
<p>Prydlondeb yr arian cydraddoldeb sy'n ddyledus.</p>	<p>Dim ond ar ôl i Gyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru gael eu cymeradwyo y llwyddodd WIBSS i brosesu'r taliadau cydraddoldeb. Cawsom y Cyfarwyddiadau diwygiedig ddydd Gwener 13 Awst 2021, a gwnaed y taliadau cydraddoldeb, gan gynnwys yr elfennau wedi'u hôl-ddyddio, erbyn 20 Awst 2021. WIBSS oedd y cynllun cyntaf yn y DU i weithredu'r holl newidiadau cydraddoldeb.</p>
<p>Byddai'n braf cael yr arian ar yr un diwrnod bob mis.</p>	<p>Mae'n ofynnol i ni sicrhau bod yr arian yn cyrraedd eich cyfrif banc erbyn 20fed o bob mis calendr. Weithiau bydd y taliad yn eich cyrraedd yn gynharach, yn aml oherwydd amseriad penwythnosau neu ŵyl y banc.</p> <p>Ar adegau, gellir talu'r arian un neu ddau ddiwrnod cyn yr 20fed o'r mis lle rydym yn rheoli cyfanswm y taliadau GIG Cymru sy'n cael eu talu mewn unrhyw wythnos. Yn hollbwysig, ni ddylech byth dderbyn taliad ar ôl yr 20fed, gan ein bod yn cydnabod y gallai hyn achosi sgil-broblemau gyda debydau uniongyrchol neu archebion sefydlog yn mynd allan o'ch cyfrifon.</p>

<p>Byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth am Gwmnïau Morgeisi sy'n barod i dderbyn taliadau WIBSS.</p>	<p>Rydym wedi codi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru, a deallwn ei fod yn cael ei drafod ar lefel y DU gyda'r pedwar cynllun. Cyn gynted ag y bydd gennym unrhyw wybodaeth ddiweddar, byddwn yn ei chynnwys ar ein gwefan ac yn hysbysu buddiolwyr yn ysgrifenedig hefyd.</p>
--	--

MYNEDIAD I'R GWASANAETH

DYWEDSOCH CHI	GWNAETHOM NI (NEU BYDDWN YN GWNEUD)
<p>Dylai fod mynediad at y gwasanaeth yn lleol.</p>	<p>Mae cyfyngiadau COVID wedi atal WIBSS rhag darparu gwasanaethau ar lefel leol, a rhag darparu'r ymweliadau cartref a ddarparwyd gennym o'r blaen. Unwaith y bydd cyfyngiadau COVID yn cael eu codi, ac mae'n ddiogel gwneud hynny, rydym yn bwriadu darparu gwasanaethau'n lleol ac ailgyflwyno ymweliadau cartref i'r rhai sy'n gofyn amdanynt.</p> <p>Hoffai WIBSS bwysleisio bod ein gwasanaethau ar gael i'n holl fuddiolwyr, waeth ble maent yn byw. Hyd yn oed pe na bai ymweliad cartref yn bosibl, byddem yn archwilio opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaeth mewn ffyrdd eraill.</p>
<p>Budd-daliadau marwolaeth – pwy all gael buddion ein taliadau?</p>	<p>Taliad Profedigaeth – Mae WIBSS yn talu Taliad Profedigaeth o £10,000 i briod mewn profedigaeth, i berthynas ddibynnol neu i ystâd buddiolwr heintiedig, pan fydd y buddiolwr yn marw.</p> <p>Os oes priod neu bartner mewn profedigaeth i fuddiolwr heintiedig, yna byddant yn derbyn taliadau profedigaeth rheolaidd yn dilyn marwolaeth buddiolwr. Y taliad yw 100% o daliad y buddiolwr am y flwyddyn gyntaf, ac yna 75% o'r gyfradd ar gyfer y blynyddoedd dilynol.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae WIBSS yn llunio ffurflen, a fydd yn caniatáu i fuddiolwyr nodi pwy ddylai dderbyn y taliadau hyn ar ôl iddynt farw.</p>

MEDDYLIAU PELLACH

DYWEDSOCH CHI	GWNAETHOM NI (NEU BYDDWN YN GWNEUD)
<p>Strwythur cyfathrebu neu gydnabyddiaeth o gefnogaeth gan feddygon teulu.</p>	<p>Cyhoeddodd WIBSS daflen wybodaeth am y gwasanaeth i bob meddyg teulu yng Nghymru yn 2019. Rydym wrthi'n diweddarar'r daflen i adlewyrchu'r cytundebau talu cydraddoldeb a byddwn yn ei hailanfon i bob practis meddyg teulu.</p>

Talwch fwy o arian i ni.

Ochr yn ochr â'r Ymchwiliad Cyhoeddus, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi adolygiad ar wahân i ystyried edrych ar Fframwaith Iawndal. Am fwy o wybodaeth, ewch i <https://www.gov.uk/government/publications/infected-blood-compensation-framework-study-terms-of-reference>



Survey- English
Version May2021.dc



Survey- Welsh
Version May2021.dc